Neges gan Gadeirydd y Sioe

Blwyddyn arall wedi mynd a newydd cael y gaeaf mwyaf caled a'r mis Mai oeraf ers nifer o flynyddoedd. A ydi'r byd yn cynhesu? Sioe llwyddiannus arall y llynedd gyda'r swyddogion i gyd yn tynnu eu pwysau, cystadlaethau da ym mhob adran a'r tywydd yn garedig.

A gaf i gymeryd y cyfle i ddiolch i Rowland a Mair Jones am ei gwaith fel ysgrifenyddion yn y babell dros y blynyddoedd a phob lwc i Mark a Cheryl Morgan a fydd yn cymeryd eu lle dan lygad wyliadwrus William Williams, Prif Swyddog y Babell. Hoffem ddiolch i'r swyddogion i gyd ond yn enwedig i Sara Jones a Jane Evans, fy ysgrifenyddion, sydd yn gwneud fy ngwaith fel Cadeirydd mor rhwydd, a gwellhad llawn i Geraint, sef gwr Sara.

Rydym eleni, yn ogystal a'r cystadlaethau arferol, wedi dod a'r cneifio a'c adran yrru ceffylau yn ôl i ehangu y nifer o weithgareddau ar y cae, a cofiwch gyda cystadleuaeth cneifio y byd yn Llanelwedd ond pythefnos cyn ein Sioe efallai fydd pencampwr y byd yn cystadlu yn Sioe Llanilar!

Dewch a mwynhewch.

Rhodri Evans
Cadeirydd Sioe Llanilar